# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5654

## 205

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 - 2 a 4 - 8. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.23

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg

Dechreuodd yr eitem am 14.56

### 4 Dadl: Mynd i'r Afael â Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**NDM7041** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi:

a) yn galonnog y frwydr fyd-eang i ddiwreiddio hiliaeth ac ideoleg hiliol ac yn ymdrechu tuag at Gymru fwy cyfartal, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol o bob math; a

b) egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil.

2. Yn galw ar Gomisiwn y Cynulliad ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hwyluso'r gwaith o lunio datganiad trawsbleidiol, yn crynhoi egwyddorion Diddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil mewn ymgynghoriad â'r unigolion a'r sefydliadau mwyaf priodol.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl: Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 16.28

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7042** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerir i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd rhai o'r nodau yn y model gofal sylfaenol ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu tanseilio gan yr argyfwng recriwtio presennol o ran meddygon teulu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod heriau o ran recriwtio meddygon teulu wedi arwain at gau practisau meddygon teulu, practisau'n cael eu rheoli gan fyrddau iechyd lleol, dibyniaeth gynyddol ar feddygon locwm a bylchau yn rotas gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 22 | 0 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Cymru yn hyfforddi nifer digonol o feddygon teulu newydd i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 22 | 0 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r anghydfod parhaus rhwng cynrychiolwyr meddygon teulu a Llywodraeth Cymru ynghylch indemniad meddygon teulu a'r effaith niweidiol bosibl y gallai hyn ei chael ar recriwtio meddygon teulu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 15 | 7 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi meddygon teulu yng Nghymru;

b) cynyddu cyfran cyllideb y GIG a ddyrennir i ofal sylfaenol; ac

c) mynd i'r afael â phryderon cyrff sy'n cynrychioli meddygon teulu ynghylch indemniad meddygon teulu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM7042** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerir i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 8 | 1 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, canwyd y gloch a gohiriwyd y cyfarfod gan ailgynnull am 17.15 ar gyfer y cyfnod pleidleisio.

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 7 Anerchiad gan y Llywydd i nodi ugain mlynedd ers datganoli

Dechreuodd yr eitem am 17.18

## 8 Anerchiad gan y Prif Weinidog i nodi ugain mlynedd ers datganoli

Dechreuodd yr eitem am 17.27

Daeth y cyfarfod i ben am 17.50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mai 2019**